

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

CRYNODEB O'R CANLLAWIAU A'R GWEITHDREFNAU

Sylwer bod y ddogfen hon yn grynoded o ganllawiau a gweithdrefnau Gweithle Cam-drin Domestig yr Heddlu. Gellir cael copïau llawn drwy gais Rhyddid Gwybodaeth.

Teitl:	Cam-drin Domestig yn y Gweithle	
Maes Arfer / Busnes:	Lles	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Tîm Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Llesiant	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	Medi 2013	
Adolygwyd Ddiwethaf:	23/05/2019	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mai 2022	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	05 (cryno)	Prif Gwnstabl

AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:

Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod bod llawer o rwystrau i ddatgelu cam-drin domestig os ydych yn gweithio i wasanaeth yr heddlu.

Cymryd camau gweithredu cadarnhaol er mwyn cael gwared ar y rhwystrau hyn ar gyfer adrodd Cam-drin Domestig ac annog personél i adrodd ar gam-drin domestig, fel y gellir cyfeirio'r dioddefwyr wedyn, lle y bo'n briodol, at gefnogaeth a chymorth i oresgyn y fath gam-drin.

CANLLAWIAU:

Mae Heddlu De Cymru wedi ymuno â Menter Cyflogwyr sy'n rhwydwaith o dros 200 o gwmnïau, gan gynnwys nifer o heddluoedd. Mae'r rhwydwaith yn helpu ac yn cefnogi staff sy'n dioddef cam-drin domestig neu staff sy'n cyflawni trais domestig eu hunain. Mae'r wefan yn darparu adnoddau defnyddiol, gan gynnwys y pecyn cymorth sydd ar gael yn y ddolen isod:

Pecyn cymorth cam-drin domestig i gyflogwyr;

https://www.bitc.org.uk/sites/default/files/bitc_phe_domestic_abuse_toolkit.pdf

ASESIAD RISG CYFFREDINOL:

Mae asesiad risg cyffredinol ar gael.

GWEITHDREFN:

Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i bob Swyddog yr Heddlu a phob Aelod o Staff yr Heddlu ni waeth beth fo'i ryw, ei oedran, ei rywedd, ei grefydd na'i anabledd.

Mae'n rhaid i'r holl staff sicrhau eu bod wedi darllen y llawlyfr Cam-drin Domestig yn y Gweithle.

Bydd personél yr heddlu sy'n adrodd ar Gam-drin Domestig, yn cael yr holl gymorth a diogelwch a roddir i'r cyhoedd ac mae'n rhaid iddynt fod yn ymwybodol y bydd camau gweithredu cadarnhaol yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r troseddwr mewn achosion lle ceir honiadau o drosedd.

Y flaenoriaeth bob amser fydd diogelu'r dioddefwr ac unrhyw berson arall sy'n agored i niwed yn dilyn unrhyw ddatgeliad o gam-drin domestig.

Cyfrinachedd

Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod y gall fod swyddogion neu staff yr heddlu yn ddiodefwr cam-drin rhywiol neu ddomestig nad ydynt yn dewis rhoi gwybod i'w cyflogwr amdano. Mae systemau adrodd cyfrinachol ar waith a cheir dolenni isod i [Asiantaethau Cymorth Lleol a Chenedlaethol](#).

Bydd cyfrinachedd yn cael ei sicrhau ar bob cyfle posibl, yn amodol ar ofynion diogelu plant ac oedolion.

Bwriad hyn yw rheoli'r risg a berir gan y troseddwr ac nid rhannu gwybodaeth am y dioddefwr. Ni ddylid bod angen datgelu hunaniaeth y dioddefwr at y diben hwn, hyd yn oed wrth ofyn i adrannau megis adnoddau dynol a diogelu'r cyhoedd am gyngor cyffredinol.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Adran Diogelu'r Cyhoedd:

- cyhoeddi, cynnal a *phostio rhestr o adnoddau yn ymwneud â cham-drin domestig mewn manau* hawdd eu gweld o fewn y gweithle
- Gweler hefyd Arweiniad a Gweithdrefn Cam-drin Domestig Heddlu De Cymru a gaiff ei diweddarau'n flynyddol gan yr Adran Diogelu'r Cyhoedd
- mae'n rhaid i'r holl staff sy'n gweithio ym maes diogelu'r cyhoedd gydymffurfio â Pholisi Heddlu De Cymru ar [Iechyd a Diogelwch](#) a mynd i'r ôl-drafodaethau seicolegol blynyddol gorfodol.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i ddsbarthu gwybodaeth am y polisi i bob aelod o staff a fydd yn cynnwys hysbysiadau gorchmynion a gwybodaeth wythnosol yr heddlu, poster, cylchlythyrau, erthyglau ar BOB ac yn y Diweddariad Cyfathrebu Corfforaethol, gwe-dudalennau Trosedd Arbenigol (dolen gyflym PVP).

Comandariaid Rhanbarthol/Penaethiaid Adran:

- Byddant yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau neu gyrff eraill yn y sector statudol neu wirfoddol er mwyn gwrthsefyll cam-drin domestig.
- Byddant yn hyrwyddo diogelwch pob aelod o staff yn y gweithle.
- Byddant yn sicrhau nad yw'r rhai sy'n cyflawni troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn cael eu trin yn wahanol i unrhyw ddrwgdybiedig arall. Mae'n rhaid ymchwilio iddynt a'u dal yn gyfrifol drwy'r system cyfiawnder troseddol yn yr un ffordd ag unrhyw un arall.

Rheolwyr a Goruchwylwyr:

- Cynnig y cyfle i staff drafod materion personol yn gyfrinachol a all fod yn effeithio ar eu hiechyd a'u perfformiad yn y gwaith ac ati.
- Mae'n rhaid gofyn cwestiynau am gam-drin domestig yn rheolaidd yn ystod cyfweiliad dychwelyd i'r gwaith arferol ar ôl absenoldeb oherwydd salwch. Mae'n rhaid gwneud hyn yn ystod cyfweiliad absenoldeb oherwydd salwch anffurfiol neu ffurfiol neu mewn cyfarfodydd rheoli tanberfformiad anffurfiol/ffurfiol ac ati.
- Wrth amau achos o gam-drin domestig, neu ddod yn ymwybodol ohono, gall y rheolwr geisio help a chyngor gan Gyngorydd Adnoddau Dynol/Rheolwr AD, yr Adran Safonau Proffesiynol, yr Uned Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Llesiant

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

neu Uned Diogelu'r Cyhoedd.

Wrth ymdrin ag unrhyw aelod o staff sy'n profi cam-drin domestig, neu wedi gwneud hynny, mae'n rhaid i'r rheolwr:

- Gymryd yr aelod o staff o ddifrif, gwranddo ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a'i gredu
- Sicrhau bod unrhyw drafodaeth ag aelod o staff am ei amgylchiadau yn cael ei chynnal mewn preifatrwydd.
- parchu cyfrinachedd cyn belled ag y bo modd (gweler yr adran ar gyfrinachedd)
- Deall na fydd yr aelod o staff o bosibl am drafod manylion â'i reolwr llinell ac efallai bod yn well ganddo gynnwys trydydd parti megis cydweithiwr, swyddog arall, cynrychiolydd undeb llafur neu asiantaeth allanol.
- Peidio â rhoi pwysau gormodol ar staff i ddatgelu gwybodaeth bersonol nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn ei rhannu.
- Cael gwybod yr hyn mae aelod o staff eisiau ac a yw rheolwr, swyddog arall neu asiantaeth arall yn gallu ei helpu i'w gyflawni.
- Bod yn onest am yr hyn y gellir ei gynnig.
- Bod yn ymwybodol o faterion ychwanegol a wynebwr gan yr aelod o staff oherwydd ei nodweddion gwarchoddedig megis oed, rhyw, rhywioldeb, cefndir ethnig neu anabledd ac ati.
- Bod yn sensitif ac yn anfarnol – gall fod angen amser ar yr aelod o staff i benderfynu beth i'w wneud.
- Bod yn ymwybodol o ba gefnogaeth sydd ar gael ac archwilio'r opsiynau hyn â'r aelod o staff, gan gynnwys addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud er mwyn sicrhau diogelwch y gweithiwr.
- Cynnig cefnogaeth i weithwyr sy'n profi cam-drin domestig a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt.
- Annog personél i geisio cyngor gan asiantaethau perthnasol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol.
- Peidio â chymryd yn ganiataol y bydd yr aelod o staff yn gyfarwydd â'r prosesau oherwydd ei fod yn gweithio i'r sefydliad.
- Trafod camau penodol y gellir eu cymryd er mwyn helpu rhywun i aros yn ddiogel yn y gweithle a gartref

Os yw Aelod o Bersonél yr Heddlu yn Gyflawnwr Cam-drin Domestig

Mae Cam-drin Domestig yn ymddygiad annerbyniol ac ni fydd Heddlu De Cymru yn ei oddef.

Bydd Heddlu De Cymru yn ymchwilio'n fanwl i honiadau o Gam-drin Domestig a gall troseddwr a gaiff eu dyfarnu'n euog o droseddau o'r fath mewn achosion disgyblu a throsteddol dilynol wynebu cael eu diswyddo o'r Gwasanaeth.

Wrth ystyried mesurau disgyblu, mae'n hanfodol na fydd y dioddefwr a'i blant yn cael eu rhoi mewn perygl.

Bydd Heddlu De Cymru yn dal i ystyried cymryd camau disgyblu yn erbyn Swyddogion/Staff yr honnir eu bod yn euog o gam-drin domestig. Os na cheir collfarn droseddol, gall achosion disgyblu gael eu cynnal o hyd, gyda'r ystod lawn o gosbau disgyblu ar gael, gan gynnwys diswyddo. Bydd mesurau asesu risg yn cael eu hadolygu

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

gan y rheolwr llinell, ac ar y cyd â'r Adran Safonau Proffesiynol.

Beth bynnag yw'r amgylchiadau, ni fydd rheolwyr llinell yn cyfryngu rhwng y dioddefwr a'r cyflawnwr. Mae'n rhaid i reolwyr llinell gofio hefyd nad yw'n ofynnol iddynt ymgymryd â rôl cwnselydd; mae'n rhaid gadael hyn i gwmselwyr hyfforddedig neu arbenigwyr cam-drin domestig.

Partneriaid Busnes: Adnoddau Dynol (A.D.)

- Bydd Adnoddau Dynol yn adolygu ac yn diweddarau polisïau, gweithdrefnau ac arferion rheoli pobl sy'n gysylltiedig ac y gallant effeithio ar weithredu polisi cam-drin domestig gweithle. Er enghraifft, mae digwyddiadau cam-drin domestig yn aml yn cynyddu yn ystod beichiogrwydd felly bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â mamolaeth yn cynnwys cyfeiriadau at drais domestig a chymorth.

Gellir cael cyngor proffesiynol arbenigol gan y Tîm Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Llesiant ond y Cynghorydd Adnoddau Dynol yn y rhanbarth neu'r adran a fydd yn rhoi cyngor, help a chefnogaeth gyffredinol i reolwyr.

Y Tîm Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Llesiant:

- Rhoi cyngor ar y weithdrefn hon.
- Cynghori ar asesiad risg lle ceisir hyn gan reolwyr.
- Adolygu'r weithdrefn hon yn unol â'r amserlen adolygu a/neu ar ôl unrhyw newidiadau perthnasol, e.e. newid mewn deddfwriaeth, digwyddiadau yr adroddwyd arnynt.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i ddosbarthu gwybodaeth am y polisi i'r holl aelodau o staff a fydd yn cynnwys hysbysiadau gorchmynion a gwybodaeth wythnosol yr heddlu, poster, cylchlythyrau, erthyglau ar BOB ac yn y Diweddariad Cyfathrebu Corfforaethol, gwe-dudalennau Iechyd a Diogelwch ac Iechyd a Llesiant.

Tîm Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Llesiant: Gwasanaethau Cwnsela a Thrawma:

- Darparu cefnogaeth a chwnsela cyfrinachol i unigolion.
- Cynghori reolwyr ar y gefnogaeth sydd ar gael.

Gwasanaethau Dysgu a Datblygu:

- Darparu hyfforddiant perthnasol ar gam-drin domestig fel rhan o'r broses sefydlu i Swyddogion yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.
- Darparu hyfforddiant i reolwyr ar nodi cam-drin domestig ac adnabod ei effeithiau ar staff, sy'n berthnasol i amgylchedd gwaith yr aelod o staff.
- Darparu hyfforddiant sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd yn y cwrs Arweinyddiaeth a Phobl a'r Llwybr Arweinyddiaeth ynghyd ag arfau codi ymwybyddiaeth cymysg fel "Know-how TV" a defnyddir dysgu sy'n seiliedig ar NCALT i hyrwyddo negeseuon allweddol.
- Darparu hyfforddiant gloywi a nodwyd (fel uchod)

Adran Safonau Proffesiynol:

- Ymchwilio i bersonél Heddlu De Cymru sy'n cyflawni cam-drin domestig a'u dal yn gyfrifol drwy'r system cyfiawnder troseddol.
- Rhoi'r holl wybodaeth ddiweddaraf i'r sawl sy'n adrodd am gynnydd unrhyw

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

ymchwiliadau (mewnol) a'r broses camymddwyn, lle y bo'n briodol.

Cyfathrebu Corfforaethol:

- Bydd yn trefnu bod gwybodaeth ac adnoddau ar gael am gam-drin domestig drwy'r rhyngwyd a sut y gall aelodau o staff gael y wybodaeth ac adnoddau hyn heb orfod gofyn amdanynt na chael eu gweld yn eu defnyddio, megis ystafelloedd ymolchi neu lolfeydd gweithwyr. Bydd gwybodaeth yn cynnwys adnoddau cymorth sydd ar gael, megis y Llinell Gymorth Staff annibynnol, CONNECT ASSIST, darparwyr gwasanaethau trais domestig lleol, a phersonél sydd wedi'u hyfforddi ac ar gael i wasanaethu fel ffynonellau gwybodaeth, cefnogaeth a chyfeirio. Trefnir bod gwybodaeth ar gael ar fyrddau bwletin electronig a'i chynnwys mewn cylchlythyrau ac ôl-drafodaethau.
- Drwy strategaeth gyfathrebu berthnasol, mae'n rhaid rhoi gwybodaeth sylfaenol i holl swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu am natur ac amlygrwydd cam-drin domestig a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn rhoi gwybodaeth, cefnogi datgelu ac atal rhagor o gam-drin.

Yr Holl Staff:

- Mae'n rhaid iddynt gymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill y gall eu gweithredoedd effeithio arnynt a chydweithredu drwy ddefnyddio unrhyw systemau gwaith a ddarperir yn llawn ac yn briodol. Mae hyn yn cynnwys:
- Dilyn systemau gwaith diogel (gan gynnwys unrhyw wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant) a ddatblygwyd er mwyn lleihau perygl anaf oherwydd trais
- Cynnal asesiad risg deinamig o sefyllfa wrth iddi godi
- Adrodd ar ddigwyddiadau yn unol â'r polisi hwn

Lle mae staff yn gweithio mewn amgylcheddau nad yw Heddlu De Cymru yn eu rheoli'n uniongyrchol, mae pwyslais ychwanegol i gymryd gofal arbennig o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill.

DEDDFWRIAETH A RHEOLIADAU:

- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghoriad â Gweithwyr) 1996.
- [Newid i Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 : cyflwyno dwy drosedd benodol newydd o stelcio \(Arweiniad y Swyddfa Gartref\)](#)